CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu | Dyddiad: | Dydd Iau, 6 Medi 2012 |
| | | Rhif Union: | 01824 712568 |
| | | ebost: | dcc_admin@denbighshire.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD MERCHER, 12 MEDI 2012** am **9.30 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, TY RUSSELL, FFORDD CHURTON, RHYL**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1: GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FYNYCHU RHAN HON Y CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN BUDDIANNAU**

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu fuddiannau sy'n rhagfarnu unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 7 - 18)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gyhaliwyd ar 19 Mehefin 2012 (copi'n amgaeëdig).

**5 ADOLYGU FFIOEDD A THALIADAU TRWYDDEDU** (Tudalennau 19 - 20)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio (copi'n amgaeëdig) yn diweddaru'r aelodau ar y cynnydd a wnaed hyd yma ar adolygu'r ffioedd a'r taliadau trwyddedu ar gyfer 2013/14.

**6 ADOLYGU CASGLIADAU ELUSENNOL** (Tudalennau 21 - 24)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio (copi'n amgaeëdig) ar adolygu Casgliadau Elusennol a newidiadau arfaethedig i'r polisi presennol.

**7 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU 2012/13** (Tudalennau 25 - 26)

Ystyried Blaenraglen Waith y Pwyllgor Trwyddedu (copi'n amgaeëdig).

**8 CANLYNIADAU MEWN PERTHYNAS AG ADDASRWYDD GYRWYR TRWYDDEDUG PRESENNOL CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HUR PREIFAT** (Tudalennau 27 - 28)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio (copi'n amgaeëdig) yn diweddaru'r Aelodau ar ganlyniadau penderfyniadau a gymerwyd yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Trwyddedu mewn perthynas â gyrwyr trwyddedig.

**RHAN 2 – EITEMAU CYFRINACHOL**

Argymhellir yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem ganlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig (fel y diffinnir ym mharagraffau 12 a 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf) yn cael ei datgelu.

**9 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HUR PREIFAT – YMGEISYDD RHIF 043727** (Tudalennau 29 - 32)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio (copi'n amgaeëdig) yn gofyn i'r aelodau benderfynu ar gais am drwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hur preifat gan Ymgeisydd Rhif 043727.

**10 ADOLYGU TAIR TRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HUR PREIFAT** (Tudalennau 33 - 42)

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio (copi'n amgaeëdig) yn gofyn i'r aelodau adolygu tair trwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hur preifat am fethu â chydymffurfio â gofynion y Cyngor i sefyll prawf gwybodaeth gyrwyr yn llwyddiannus.

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

Brian Blakeley
Joan Butterfield
William Cowie
Richard Davies
Stuart Davies
Hugh Irving
Barry Mellor
Win Mullen-James
Peter Owen
Arwel Roberts
Cefyn Williams

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**PWYLLGOR TRWYDDEDU**
**TREFN PENNU CEISIADAU TRWYDDEDU**

| CAM | DISGRIFIAD |
|---|---|
| 1. | Pennaeth Cynllunio a Diogelu’r Cyhoedd (neu gynrychiolydd) i gyhoeddi’r cais yn fyr |
| 2. | Gofynnir i’r ymgeisydd gyflwyno’i achos<br><br>Gall yr ymgeisydd alw unrhyw dystion a fyn i gefnogi’r cais |
| 3. | Gall aelodau’r pwyllgor holi’r ymgeisydd neu ei dystion |
| 4. | Fe wahoddir unrhyw wrthwynebwyr i’r cais i siarad |
| 5. | Rhoddir cyfle i’r ymgeisydd holi’r gwrthwynebwyr |
| 6. | Gall aelodau’r pwyllgor holi’r gwrthwynebwyr |
| 7. | Gwahoddir swyddogion technegol i gyflwyno unrhyw ganfyddiadau (Heddlu, Gwasanaeth Tân, Rheoli Adeiladu, Rheoli Llygredd) |
| 8. | Gall aelodau’r pwyllgor ac wedyn yr ymgeisydd a’r gwrthwynebwyr holi’r swyddogion technegol |
| 9. | Fe wahoddir yr ymgeisydd i wneud datganiad terfynol |
| 10. | Bydd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu’r Cyhoedd yn gwneud datganiad terfynol (os bydd angen) |
| 11. | Fe ofynnir i’r canlynol adael y cyfarfod tra bydd y cais yn cael ei drafod gan aelodau - yr ymgeisydd, pob trydydd parti, Pennaeth Cynllunio a Diogelu’r Cyhoedd, swyddogion technegol, y wasg a’r cyhoedd<br><br>NB Yr unig bobl ddylai fod ar ôl yw – aelodau pwyllgor, y cyfieithydd, ymgynghorydd cyfreithiol y pwyllgor a’r clerc cofnodion |
| 12. | Bydd aelodau’r pwyllgor yn ystyried y cais gan ystyried y dystiolaeth a roddwyd |
| 13. | Pan fydd yr aelodau wedi gwneud eu penderfyniad, fe elwir pob parti’n ôl ac fe hysbysir yr ymgeisydd o benderfyniad yr aelodau |
| 14. | Fe hysbysir yr ymgeisydd o’r penderfyniad yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo hynny’n ymarferol |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 19 Mehefin 2012 am 2.00 pm.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Joan Butterfield, William Cowie, Richard Davies, Stuart Davies, Hugh Irving, Barry Mellor, Win Mullen-James, Peter Owen, Arwel Roberts a/ac Cefyn Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Gyfreithiwr (AL), Swyddog Trwyddedu (NJ & JT), Swyddog Gorfodi Diogelwch Cymunedol (HE), Gwyddog Gorfodaeth Trwyddedu (TB), Swyddog Gweinyddol Trwyddedu (ES) a/ac Gweinyddwr Pwyllgor (KEJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 PENODI CADEIRYDD

Yn unol â'r broses benodi, roedd datganiadau ysgrifenedig wedi eu cyflwyno i'r pwyllgor gan y Cynghorwyr Stuart Davies, Barry Mellor a Cefyn Williams am swydd Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer 2012/13. Cynigiodd y Cynghorydd Peter Owen, ac eiliodd y Cynghorydd Richard Davies y dylid penodi'r Cynghorydd Stuart Davies yn Gadeirydd. Cynigiodd y Cynghorydd Arwel Roberts, ac eiliodd y Cynghorydd William Cowie y dylid penodi'r Cynghorydd Cefyn Williams yn Gadeirydd. Cynigiodd y Cynghorydd Joan Butterfield, ac eiliodd y Cynghorydd Brian Blakeley y dylid penodi'r Cynghorydd Barry Mellor yn Gadeirydd.

Ar ôl pleidlais gyfrinachol, a ymgymerwyd yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 14.4, fe –

***BENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd Stuart Davies yn Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer y flwyddyn i ddod.*

## 3 PENODI IS-GADEIRYDD

Gwahoddodd y Cadeirydd enwebiadau ar gyfer swydd Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer 2012/13. Cynigiodd y Cynghorydd Joan Butterfield, ac eiliodd y Cynghorydd Brian Blakeley y dylid penodi'r Cynghorydd Barry Mellor yn Is-gadeirydd. Cynigiodd y Cynghorydd Arwel Roberts, ac eiliodd y Cynghorydd William Cowie y dylid penodi'r Cynghorydd Cefyn Williams yn Is-gadeirydd, Gan nad oedd unrhyw enwebiadau eraill, rhoddwyd y mater i bleidlais ac fe –

***BENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd Cefyn Williams yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer y Flwyddyn i ddod.*

## 4 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol neu fuddiannau a fyddai'n rhagfarnu.

Ar y pwynt hwn, mynegodd y Cadeirydd ei fwriad i amrywio trefn y rhaglen i gynnwys yr Ymgeiswyr hynny a oedd yn mynychu'r cyfarfod i gefnogi eu ceisiadau / adolygiad trwydded ac i wrando eu hachosion hwy cyn unrhyw fater arall.

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraffau 12 a 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf,yn cael ei datgelu.*

**5 ADOLYGU TRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HUR PREIFAT – YMGEISYDD RHIF 041088**

[Daethpwyd â'r eitem hon ymlaen ar y rhaglen gyda chaniatâd y Cadeirydd]

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) ar –

(i) Addasrwydd Ymgeisydd Rhif 041088 i ddal trwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hur preifat;

(ii) Bod cwyn wedi ei derbyn ynglŷn â'r Ymgeisydd yn prynu alcohol ar ran person dan ddeunaw oed (roedd crynodeb o'r ffeithiau ynghyd â datganiadau tystion a chofnod o gyfweliad gyda'r Ymgeisydd ynghlwm wrth yr adroddiad);

(iii) Bod Heddlu Gogledd Cymru wedi cyflwyno Hysbysiad Cosb i'r Ymgeisydd am brynu alcohol ar ran person dan oed, a

(iv) Bod yr Ymgeisydd wedi ei wahodd i fynychu'r cyfarfod i gefnogi adolygiad ei drwydded ac i ateb cwestiynau'r aelodau ar hynny.

Cyflwynodd y Swyddog Gorfodi Diogelwch Cymunedol yr adroddiad a ffeithiau'r achos, pan sefydlwyd bod yr Ymgeisydd wedi cyfaddef y drosedd. Atgoffwyd yr Aelodau bod y mater hwn wedi ei ohirio ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor ar ôl cais gan yr Ymgeisydd, er mwyn ei alluogi ef i fynychu.

Mynegodd yr Ymgeisydd ei edifeirwch dwys ynglŷn â'r digwyddiad, a allai fod yn rhannol oherwydd camgymeriad barn tra'r oedd yn delio â materion eraill. I gefnogi ei achos, roedd yr Ymgeisydd wedi darparu tystlythyrau ar ei gymeriad gan ei gyflogwr blaenorol a phresennol, a oedd yn tystio i'w gymeriad da a'i edifeirwch ar ôl y digwyddiad. Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, esboniodd yr Ymgeisydd amgylchiadau'r achos, gan gadarnhau nad oedd y drosedd wedi ei bwriadu ymlaen llaw, a'i fod yn cydnabod difrifoldeb ei weithredoedd. Cadarnhaodd y Swyddog nad oedd yn ymwybodol o unrhyw ddigwyddiadau blaenorol yn cynnwys yr Ymgeisydd, a oedd wedi bod yn glir ac uniongyrchol wrth drin y mater gyda'r

swyddogion. Wrth wneud ei ddatganiad terfynol, ailadroddodd yr Ymgeisydd ei edifeirwch ynglŷn â'r digwyddiad a sicrhaodd yr Aelodau na fyddai'n digwydd eto.

Ar y pwynt hwn, ymneilltuodd y pwyllgor i ystyried yr achos ac fe –

***BENDERFYNWYD** bod Ymgeisydd Rhif 041088 yn cael ei ystyried yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a cherbydau hur preifat ond rhoi rhybudd iddo ynglŷn â'i ymddygiad yn y dyfodol.*

Roedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu fel a ganlyn -

Roedd yr Aelodau wedi cymryd i ystyriaeth edifeirwch dwys yr Ymgeisydd ynglŷn â'i weithredoedd a'i onestrwydd wrth ddelio gyda swyddogion mewn perthynas â'r digwyddiad. Roedd y tystylythyrau a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd hefyd yn dystiolaeth i'r ffaith bod y digwyddiad yn groes i'w gymeriad arferol ac yn tystio i'w ymddygiad da yn flaenorol. Roedd y pwyllgor felly yn ystyried bod yr Ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded, ond yn teimlo ei bod yn briodol rhoi rhybudd ffurfiol yn wyneb y drosedd.

## 6 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HUR PREIFAT – YMGEISYDD RHIF 042869

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) ar –

(i) Gais a dderbyniwyd gan Ymgeisydd Rhif 042869 am drwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hur preifat;

(ii) Nad oedd y swyddogion wedi bod mewn sefyllfa i ganiatáu'r cais yn wyneb gwybodaeth a ddatgelwyd ar ôl datgeliad manylach gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB);

(iii) Roedd crynodeb o'r collfarnau a ddatgelwyd wedi ei ddarparu, a oedd yn ymwneud â throsedddau moduro;

(iv) Roedd llythyr wedi ei dderbyn gan yr Ymgeisydd (Atodiad 1 i'r adroddiad) yn cefnogi ei gais;

(v) Polisi presennol y Cyngor mewn perthynas â pherthnasedd collfarnau, a

(vi) Bod yr Ymgeisydd wedi ei wahodd i fynychu'r cyfarfod i gefnogi ei gais ac ateb cwestiynau'r aelodau ar hyn.

Rhoddodd y Swyddog Trwyddedu (JT) grynodeb o'r adroddiad a dweud bod yr Ymgeisydd yn bresennol yn y cyfarfod. Dywedodd bod y mater wedi ei ddwyn gerbron y pwyllgor i asesu addasrwydd yr Ymgeisydd yn wyneb y cyfnod cymharol fyr pan roedd yr Ymgeisydd wedi bod heb droseddau moduro.

Anerchodd yr Ymgeisydd y pwyllgor i gefnogi ei gais, gan ddweud iddo newid ei fywyd ers pan gyflawnwyd y troseddau a bod angen trwydded arno er mwyn

gweithio i gynnal ei deulu. Ychwanegodd bod y gwaharddiad ar yrru wedi ei leihau o 24 mis i 18 mis ar ôl iddo fynychu cwrs a argymhellwyd gan y llys. Mewn ymateb i gwestiynau, cadarnhaodd yr Ymgeisydd iddo roi'r gorau i yfed ar ôl y gwaharddiad gyrru; manylodd ei ymrwymiadau teuluol, pwysleisiodd ei brofiad yn y gorffennol fel gyrrwr trwyddedig a'i hanes mewn gwaith. Cadarnhaodd hefyd iddo gael gwarantu swydd pe rhoddid trwydded iddo. Cadarnhaodd y Swyddog Trwyddedu bod yr Ymgeisydd wedi cydweithredu'n llawn trwy gydol y broses ac wrth drin y mater gyda swyddogion.

Ar y pwynt hwn, ymneilltuodd y pwyllgor i ystyried yr achos ac fe –

***BENDERFYNWYD*** *caniatáu'r cais am drwydded gyrrwr cerbydau hacni a cherbydau hur preifat gan Ymgeisydd Rhif 042869 a rhoi rhybudd mewn perthynas â difrifoldeb ei droseddau a'i ymddygiad yn y dyfodol.*

Roedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu fel a ganlyn -

Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd, cafodd y Pwyllgor ei berswadio iddo newid ei fywyd ers pan gyflawnwyd y troseddau a'i fod wedi rhoi'r gorau i yfed. Roedd hefyd wedi cymryd i ystyriaeth bolisi presennol y Cyngor mewn perthynas â pherthnasedd collfarnau a nododd bod caniatáu'r cais yn unol â'u polisi hwy a'r amserlen a roddwyd i'r Ymgeisydd fod heb gollfarnau. Roedd y pwyllgor felly yn ystyried bod yr Ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a cherbyd hur preifat, ond yn teimlo ei bod yn briodol rhoi rhybudd yn wyneb y troseddau blaenorol.

**7 ADOLYGU CHWE TRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HUR PREIFAT**

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (JT) adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r aelodau ystyried addasrwydd chwe Ymgeisydd, rhifau 040517; 038993; 039711; 039820; 039981 and 039853 (adroddiadau unigol cyfatebol wedi eu rhestru yn Atodiadau 1 – 6 i'r prif adroddiad) i barhau fel gyrwyr trwyddedig ar ôl iddynt fethu â chydymffurfio â gofyniad y Cyngor i ymgymryd â phrawf gwybodaeth gyrrwr o fewn yr amserlen a bennwyd.

Wrth ystyried yr adroddiadau, holwyd rhai cwestiynau cyffredinol i'r swyddogion mewn perthynas â chyflwyno'r profion a'r prosesau ar gyfer gyrwyr presennol ynghyd â chynnwys y prawf gwybodaeth a manylion cyfraddau llwyddo. Mynegodd yr aelodau beth pryder ynglŷn â'r diffyg ymateb gan y gyrwyr trwyddedig er gwaethaf cael eu hatgoffa nifer o weithiau, a dywedodd y swyddogion nad oedd y rhai nad oeddynt wedi cydymffurfio â gofyniad y Cyngor i gymryd y prawf yn perthyn i un cwmni neu weithredwr. Ystyriodd yr aelodau yr amgylchiadau unigol a oedd yn ymwneud â phob Ymgeisydd ar wahân, gan drin pob achos ar ei haeddiannau ei hun, fel a ganlyn -

**(1) Ymgeisydd Rhif 038993 (Atodiad 2) – Dyddiad adnewyddu 31 Gorffennaf 2012**

Roedd yr Ymgeisydd wedi methu prawf gwybodaeth gyrrwr ar 2 Awst 2011. Ers hynny, anfonwyd 4 llythyr atgoffa at yr Ymgeisydd ac roedd wedi ei hysbysu ar 14 Mai 2012 y byddai'r mater yn cael ei gyfeirio i'r Pwyllgor Trwyddedu. Roedd yr Ymgeisydd yn bresennol i gefnogi ei achos, ac yn ystod ei gyflwyniad, gofynnodd nifer o gwestiynau i'r swyddogion a chwestiynu dilysrwydd penderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu ar 23 Mehefin 2010 i ymestyn y prawf gwybodaeth i yrwyr presennol. Sefydlwyd bod y Pwyllgor Trwyddedu ar 23 Mehefin 2010 wedi penderfynu cyflwyno'r prawf i ymgeiswyr newydd a gyrwyr trwyddedig presennol adeg adnewyddu. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Ymgeisydd gyfyngu ei gyflwyniad i'r rhesymau pam nad oedd wedi ymgymryd â'r prawf gwybodaeth yn llwyddiannus yn unol â'r gofyn.

Dywedodd yr Ymgeisydd (1) mai ei ddealltwriaeth ef o gydarfod Pwyllgor Trwyddedu 23 Mehefin 2010 oedd cyflwyno'r prawf gwybodaeth i ymgeiswyr newydd yn unig ac nid i yrwyr presennol, a (2) er gwaethaf ceisiadau, nid oedd wedi cael y 'llyfr glas' (Amodau Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hur Preifat) ar yr hwn yr oedd rhai o'r cwestiynau yn y prawf gwybodaeth wedi eu seilio, a (3), roedd ganddo gyfrifoldebau eraill a galwadau ar ei amser yn ystod y deuddeg mis diwethaf ac nid oedd wedi cael cyfle i gymryd y prawf. Dywedodd hefyd nad oedd y tyst a oedd wedi dymuno ei alw i gefnogi ei achos ar gael.

Cymerodd yr aelodau y cyfle i holi'r Ymgeisydd mewn perthynas â'i gred nad oedd y prawf yn berthnasol i yrwyr presennol a'r ymdrechion a wnaeth i gael copi o'r 'llyfr glas'. Mewn ymateb i gwestiwn uniongyrchol, cadarnhaodd yr Ymgeisydd y byddai'n barod i ail-sefyll y prawf gwybodaeth. Dywedodd nad oedd yn dymuno gwneud datganiad terfynol ond diolchodd i'r aelodau am y cyfle i gyflwyno ei achos.

Ar y pwynt hwn, ymneilltuodd y pwyllgor i ystyried yr achos ac fe –

***BENDERFYNWYD*** *gohirio ystyried addasrwydd Ymgeisydd Rhif 038993 er mwyn galluogi i'r Ymgeisydd gael copi o Amodau Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hur Preifat a chyfle i sefyll y prawf gwybodaeth yn y saith diwrnod nesaf. Pe byddai'r Ymgeisydd yn methu â sefyll y prawf gwybodaeth yn llwyddiannus, byddai'r mater yn dod yn ôl gerbron y pwyllgor.*

Roedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu fel a ganlyn -

Roedd yr Ymgeisydd wedi bod yn yrrwr am gyfnod maith a nodwyd ei barodrwydd i ail-sefyll y prawf gwybodaeth. Yn wyneb y resymau a roddwyd gan yr Ymgeisydd pam nad oedd wedi ymgymryd â'r prawf yn llwyddiannus hyd yma, roedd yr aelodau yn ystyried ei bod yn rhesymol ei fod yn cael cyfle arall i sefyll y prawf. Fodd bynnag, pe na byddai'n cymryd y cyfle i gwblhau'r prawf yn llwyddiannus byddai'r mater yn cael ei ddwyn yn ôl gerbron y pwyllgor i'w ystyried ymhellach.

Ar y pwynrt hwn (3.10 p.m.) torrodd y cyfarfod ar gyfer egwyl luniaeth.

**(2) Ymgeisydd Rhif 040517 (Atodiad 1) – Dyddiad Adnewyddu 31 Awst 2011**

Anfonwyd saith llythyr atgoffa at yr Ymgeisydd ers dyddiad adnewyddu ei drwydded ond nid oedd wedi gwneud unrhyw ymdrech i gysylltu â swyddogion. Ar 20 Ebrill

2012 hysbyswyd yr Ymgeisydd y byddai'r mater yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Trwyddedu i'w ystyried. Ni chafwyd unrhyw ymateb gan yr Ymgeisydd ac nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

Ar y pwynt hwn, ymneiltuodd y pwyllgor i ystyried yr achos ac fe –

***BENDERFYNWYD*** *atal Ymgeisydd Rhif 040517 am gyfnod o dri mis, yn ystod yr hwn y cawsai'r cyfle i ymgymryd â'r prawf gwybodaeth gyrrwr. Os na fyddai'r Ymgeisydd yn ymgymryd â'r prawf yn llwyddiannus, byddai'r mater yn cael ei ddwyn gerbron y pwyllgor i'w ystyried ymhellach. Byddai cwblhau'r prawf yn llwyddiannus o fewn y cyfnod atal tri mis yn arwain at godi'r ataliad.*

Roedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu fel a ganlyn -

Nid oedd yr ymgeisydd wedi gwneud unrhyw ymdrech i gysylltu â swyddogion er gwaethaf llythyrau atgoffa ac nid oedd wedi son pryd y byddai'n cymryd y prawf. Yn wyneb methiant yr Ymgeisydd i gydymffurfio â gofyniad y Cyngor ac ymateb i'r awdurdod trwyddedu, ystyriwyd ei bod yn briodol atal y drwydded ond rhoi cyfle i'r Ymgeisydd gwblhau'r prawf yn llwyddiannus a chadw ei drwydded.

**(3) Ymgeisydd Rhif 039711 (Atodiad 3) – Dyddiad Adnewyddu 30 Medi 2011**

Anfonwyd chwe llythyr atgoffa at yr Ymgeisydd ers dyddiad adnewyddu ei thrwydded ond nid oedd wedi ceisio cysylltu â'r swyddogion o gwbl. Ar 20 Ebrill 2012 hysbyswyd yr Ymgeisydd y byddai'r mater yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Trwyddedu, ac roedd wedyn wedi cysylltu â swyddogion i drefnu sefyll y prawf. Yn anffodus roedd yr Ymgeisydd wedi methu'r prawf y diwrnod blaenorol ac roedd i sefyll y prawf eto y diwrnod canlynol. Nid oedd yr Ymgeisydd yn bresennol yn y cyfarfod.

Ar y pwynt hwn, ymneilltuodd y pwyllgor i ystyried yr achos ac fe –

***BDNERFYNWYD*** *gohirio ystyried addasrwydd Ymgeisydd Rhif 039711 er mwyn rhoi cyfle i'r Ymgeisydd ail-sefyll y prawf gwybodaeth gyrrwr. Pe na byddai'r Ymgeisydd yn sefyll y prawf yn llwyddiannus byddai'n arwain at ddwyn y mater yn ôl gerbron y pwyllgor i'w ystyried.*

Roedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu fel a ganlyn -

Roedd yr Ymgeisydd wedi dangos ei pharodrwydd i gymryd y prawf gwybodaeth ac wedi trefnu ail-sefyll y prawf y diwrnod canlynol. Felly, ystyriwyd ei bod yn briodol rhoi cyfle pellach i'r Ymgeisydd gwblhau'r prawf yn llwyddiannus. Pe na byddai'r Ymgeisydd yn cwblhau'r prawf yn llwyddiannus, byddai'r mater yn cael ei ddwyn yn ôl gerbron y pwyllgor i'w ystyried.

**(4) Ymgeisydd Rhif 039820 (Atodiad 4) – Dyddiad Adnewyddu 31 Hydref 2011**

Anfownyd pedwar llythyr atgoffa at yr Ymgeisydd ers dyddiad adnewyddu ei drwydded ac fe'i hysbyswyd ar 30 Ebrill y byddai'r mater yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Trwyddedu. Cysylltodd yr Ymgeisydd â'r Swyddog Trwyddedu i drefnu

sefyll y prawf ar 23 Mai 2012 ond ni fynychodd yr apwyntiad. Ers hynny roedd yr Ymgeisydd wedi trefnu sefyll y prawf y diwrnod canlynol. Nid oedd yr Ymgeisydd wedi mynychu'r cyfarfod i gefnogi ei achos oherwydd salwch.

Ar y pwynt hwn, ymneilltuodd y pwyllgor i ystyried yr achos ac fe –

***BENDERFYNWYD*** *gohirio ystyried addasrwydd Ymgeisydd Rhif 039820 i roddi cyfle i'r Ymgeisydd sefyll y prawf gwybodaeth. Pe na byddai'r Ymgeisydd yn ymgymryd â'r prawf yn llwyddiannus byddai'n arwain at ddwyn y mater yn ôl gerbron y pwyllgor i'w ystyried.*

Roedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu fel a ganlyn -

Roedd yr Ymgeisydd wedi dangos ei barodrwydd i gymryd y prawf gwybodaeth ac wedi trefnu sefyll y prawf y diwrnod canlynol. Felly, ystyriwyd ei bod yn briodol rhoi cyfle i'r Ymgeisydd gwblhau'r prawf yn llwyddiannus. Pe na byddai'r Ymgeisydd yn cwblhau'r prawf yn llwyddiannus, byddai'r mater yn cael ei ddwyn yn ôl gerbron y pwyllgor i'w ystyried.

**(5) Ymgeisydd Rhif 039981 (Atodiad 5) – Dyddiad Adnewyddu 31 Hydref 2011**

Anfonwyd pum llythyr atgoffa at yr Ymgeisydd ers dyddiad adnewyddu ei drwydded ond nid oedd wedi gwneud unrhyw ymdrech i gysylltu â swyddogion. Ar 30 Ebrill 2012 hysbyswyd yr Ymgeisydd y byddai'r mater yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Trwyddedu i'w ystyried. Ni chafwyd unrhyw ymateb gan yr Ymgeisydd ac nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

Ar y pwynt hwn, ymneilltuodd y pwyllgor i ystyried yr achos ac fe –

***BENDERFYNWYD*** *atal Ymgeisydd Rhif 039981 am gyfnod o dri mis, yn ystod yr hwn y cawsai'r cyfle i ymgymryd â'r prawf gwybodaeth gyrrwr. Os na fyddai'r Ymgeisydd yn ymgymryd â'r prawf yn llwyddiannus, byddai'r mater yn cael ei ddwyn gerbron y pwyllgor i'w ystyried ymhellach. Byddai cwblhau'r prawf yn llwyddiannus o fewn y cyfnod atal tri mis yn arwain at godi'r ataliad.*

Roedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor trwyddedu fel a ganlyn -

Nid oedd yr ymgeisydd wedi gwneud unrhyw ymdrech i gysylltu â swyddogion er gwaethaf llythyrau atgoffa ac nid oedd wedi son pryd y byddai'n cymryd y prawf. Yn wyneb methiant yr Ymgeisydd i gydymffurfio â gofyniad y Cyngor ac ymateb i'r awdurdod trwyddedu, ystyriwyd ei bod yn briodol atal y drwydded ond rhoi cyfle i'r Ymgeisydd gwblhau'r prawf yn llwyddiannus a chadw ei drwydded.

**(6) Ymgeisydd Rhif 039853 (Atodiad 6) – Dyddiad Adnewyddu 31 Hydref 2011**

Anfonwyd pum llythyr atgoffa at yr Ymgeisydd ers dyddiad adnewyddu ei drwydded ond nid oedd wedi gwneud unrhyw ymdrech i gysylltu â swddogion. Ar 30 Ebrill 2012 hysbyswyd yr Ymgeisydd y byddai'r mater yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Trwyddedu i'w ystyried ac roedd wedyn wedi cysylltu â'r swyddogion i drefnu sefyll

y prawf. Yn anffodus, roedd wedi methu'r prawf y diwrnod blaenorol ac roedd i ail-sefyll yn fuan. Nid oedd yr Ymgeisydd yn bresennol yn y cyfarfod.

Ar y pwynt hwn, ymneilltuodd y pwyllgor i ystyried yr achos ac fe –

***BENDERFYNWYD** gohirio ystyried addasrwydd Ymgeisydd Rhif 0389853 er mwyn rhoi cyfle i'r Ymgeisydd ail-sefyll y prawf. Pe na byddai'r Ymgeisydd yn ymgymryd â'r prawf yn llwyddiannus, byddai'r mater yn cael ei ddwyn yn ôl gerbron y pwyllgor i'w ystyried.*

Roedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu fel a ganlyn -

Roedd yr Ymgeisydd wedi dangos ei barodrwydd i gymryd y prawf gwybodaeth ac wedi trefnu ail-sefyll y prawf y diwrnod canlynol. Felly, ystyriwyd ei bod yn rhesymol rhoi cyfle i'r Ymgeisydd gwblhau'r prawf yn llwyddiannus. Pe na byddai'r Ymgeisydd yn cwblhau'r prawf yn llwyddiannus, byddai'r mater yn cael ei ddwyn yn ôl gerbron y pwyllgor i'w ystyried.

**SESIWN AGORED**

Ar ôl cwblhau'r uchod, aeth y cyfarfod yn ei flaen mewn sesiwn agored.

**8 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

**9 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2012.

***PENDERFYNWYD** derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2012 fel cofnod cywir.*

**10 ADOLYGIAD – DEDDF GAMBLO 2005 DATGANIAD EGWYDDORION**

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (NJ) adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r aelodau gymeradwyo cynnwys Datganiad Egwyddorion y Cyngor (Deddf Gamblo 2005) ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol cyn ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn i'w fabwysiadu. Roedd copi o'r Datganiad Egwyddorion (Atodiad A) ynghlwm wrth yr adroddiad.

Hysbyswyd yr Aelodau bod angen i'r Cyngor adolygu'r Datganiad o Egwyddorion Gamblo bob tair blynedd. Roedd y Datganiad wedi ei ddatblygu gan y chwe Awdurdod Trwyddedu yng Ngogledd Cymru i sicrhau cysondeb, ac ar ôl adolygiad ni ystyriwyd bod angen unrhyw newidiadau perthnasol.

***PENDERFYNWYD** –*

(a) *Cytuno cynnwys Datganiad Egwyddorion y Cyngor (Deddf Gamblo 2005) ynghlwm wrth yr adroddiad (Atodiad A) ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol, a*

(b) *Cyn belled â nad oedd angen newid pellach ar ôl y broses ymgynghori, argymell y Datganiad o Egwyddorion i'r Cyngor Llawn i'w fabwysiadu.*

**11 ADOLYGU PRISIAU A THALIADAU CERBYDAU HACNI**

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (NJ) adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) ar –

(i) Ddau gais a dderbyniwyd i adolygu prisiau a thaliadau ar gyfer cerbydau hacni (tacsis) a oedd wedi eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Trwyddedu ar 23 Mehefin 2010 (Atodiad A i'r adroddiad);

(ii) Darn o gylchgrawn misol National Private Hire yn dangos tabl cynghrair o brisiau tacsis ledled y DU (atodiad B i'r adroddiad) gyda Sir Ddinbych yn rhif 219 o gyfanswm o 363;

(iii) Tabl cynghrair yn dangos bod Sir Ddinbych yn wythfed allan o 22 o awdurdodau lleol Cymru (Atodiad C i'r adroddiad);

(iv) Manylion y cynigion a dderbyniwyd gan y busnes, yn cynnwys tabl yn dangos cost siwrnai pe byddai'r cynnig o 20 ceiniog yn cael ei ychwanegu i'r pris cychwyn (Atodiad D i'r adroddiad);

(v) Deg ymateb a dderbyniwyd gan y busnes ar ôl ymgynghori ar y cynigion (Atodiad E i'r adroddiad) gyda'r mwyafrif yn gwrthwynebu unrhyw gynnydd mewn prisiau oherwydd yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, a nifer o gwmnïau yn gweithredu cynllun "£3 i unrhyw le yn y Rhyl';

(vi) Manylion costau sy'n effeithio gweithredwyr cerbydau ers y cynnydd diwethaf mewn prisiau yn 2010 yn ymwneud ag yswiriant a chostau prynu cerbydau a phrisiau tanwydd, a

(vii) Yr opsiynau sydd ar gael i'r aelodau wrth adolygu'r prisiau a'r taliadau presennol ar gyfer cerbydau hacni.

Ystyriodd yr aelodau haeddiannau ac fel arall y cynigion i gynyddu prisiau a thaliadau cerbydau hacni, ynghyd â'r ymateb a gafwyd gan y busnes ar ôl ymarfer ymgynghorol, a'r wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan y swyddogion fel y manylwyd yn yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, nododd y Cynghorwyr Blakeley a Joan Butterfield bod nifer o gwmnïau tacsi yn y Rhyl wedi bod yn gweithredu pris '£3 i unrhyw le yn y Rhyl' gyda hysbysiad yn ddiweddar bod cwmnïau eraill yn cynnig prisiau is, a bod gyrwyr tacsi yn ei chael yn anodd gwneud bywoliaeth dan

amgylchiadau anodd. Esboniodd y Swyddog Gorfodi Trwyddedu bod gan y Cyngor y pwerau i bennu prisiau a thaliadau uchaf i dacsis ond y gallai gyrwyr godi llai os dymunent wneud hynny, ac nad oedd gan y Cyngor unrhyw reolaeth dros ostyngiadau mewn prisiau. Mewn perthynas â'r cynllun peilot i roddi 'bagiau chwydu' i holl weithredwyr cerbydau at ddefnydd cwsmeriaid, croesawodd yr aelodau y fenter a oedd yn cael ei hariannu gan y Tîm Diogelwch Cymunedol.

Yn wyneb y gystadleuaeth prisiau rhwng cwmnïau tacsi a'r ffaith nad oedd gan yr awdurdod trwyddedu reolaeth dros hyrwyddiadau o'r fath, ac o ystyried bod mwyafrif yr ymatebion i'r ymgynghoriad wedi gwrthwynebu unrhyw gynnydd mewn prisiau a thaliadau, cynigiodd y Cynghorydd Barry Mellor, gyda'r Cynghorydd Joan Butterfield yn eilio, y dylid gwrthod y cynigion yn adran 5.2 yr adroddiad a chadw'r prisiau a'r taliadau presennol. Felly, fe -

***BENDERFYNWYD*** *gwrthod y cynigion fel y manylwyd yn 5.2 yr adroddiad a pheidio â chynyddu'r prisiau a'r taliadau presennol.*

## 12 CYFANSODDIAD NEWYDD A DIRPRWYO SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR

Cyflwynodd y Prif Gyfreithiwr adroddiad gan y Dirprwy Swyddog Monitro (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r aelodau gymeradwyo Dirprwyo Swyddogaethau perthnasol a chynllun Dirprwyaeth i Swyddogion fel y nodwyd yn yr adroddiad a'r atodiadau a oedd ynghlwm, ar ôl adolygu Cyfansoddiad y Cyngor.

Cynigiwyd newidiadau i'r cyfansoddiad i wneud swyddogaethau a dirprwyaethau'r Cyngor yn fwy trylow. Roedd Rhan 3 wedi ei newid i roddi mwy o esboniad ar gyfrifoldebau pwyllgorau unigol (Atodiad 1 i'r adroddiad) ac roedd Rhan 9.2 wedi ei newid i gynnwys manylion dirprwyo i Benaethiaid Gwasanaeth (Atodiad 2 i'r adroddiad). Roedd yr adrannau hynny a oedd yn arbennig o berthnasol i'r Pwyllgor Trwyddedu wedi eu hamlygu yn yr atodiadau i'r adroddiad. Ychwanegodd y Prif Gyfreithiwr nad oedd y newidiadau yn cynnwys unrhyw gynigion newydd, ond yn dwyn at ei gilydd gyfrifoldebau a dirprwyo swyddogaethau'r pwyllgor mewn un lle.

Mewn perthynas â Rhan 3, Tabl 1, 11 – cyflawni unrhyw swyddogaeth yn ymwneud â rheoli llygredd neu reoli ansawdd yr aer - dywedodd y Cynghorydd Joan Butterfield nad oedd y Pwyllgor Trwyddedu wedi ystyried materion felly o'r blaen. Cytunodd y Prif Gyfreithiwr wirio'r cyfeiriad hwnnw gyda'r Dirprwy Swyddog Monitro.

Tra'n derbyn bod y mater yn syrthio y tu allan i gylch gorchwyl y Pwyllgor Trwyddedu, cytunodd y Prif Gyfreithiwr fwydo sylwadau'r Cynghorydd Butterfield yn ôl i'r Dirprwy Swyddog Monitro yr hoffai weld y Grwpiau Aelodau Ardal yn cymryd rhan fel rhan o'r broses ymgynghorol yn wyneb yr effaith ar drefi a phentrefi'r sir mewn perthynas â swyddogaethau priffyrdd (Rhan 3, Table 1, 18).

Cefnogodd yr aelodau yr eglurder a'r amlygrwydd o ran cyfrifoldeb a chymryd penderfyniadau yn deillio o'r newidiadau a wnaed i Ran 3 a Rhan 9.2 y cyfansoddiad. Ar ôl ystyried manylion yr adroddiad a'r atodiadau, fe –

***BENDERFYNWYD** yn amodol ar wirio'r cyfeiriad at gynnwys swyddogaethau'n ymwneud â rheoli llygredd neu reoli ansawdd aer yn dod o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor Trwyddedu, cymeradwyo Dirprwyo Swyddogaethau perthnasol a'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion fel y nodwyd yn yr adroddiad ac a amlygwyd yn yr atodiadau ynghlwm wrth yr adroddiad.*

**13 BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU 2012/13**

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) ar flaenraglen waith y Pwyllgor Trwyddedu.

***PENDERFYNWYD** cydnabod rhaglen waith y Pwyllgor Trwyddedu fel y nodwyd yn yr adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 4.00 p.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 12 Medi 2012 |
| **PRIF SWYDDOG:** | Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Swyddog Trwyddedu<br>licensing@denbighshire.gov.uk<br>01824 706451 |
| **PWNC:** | Adolygiad o ffioedd a thaliadau Trwyddedu |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.2 I roi diweddariadau i'r Aelodau ar ddatblygiadau sy'n cael eu gwneud ar adolygiad o ffioedd a thaliadau Trwyddedu 2013/14.

**2. CRYNODEB GWEITHREDOL**

2.1 Gofynnodd yr Aelodau am Adolygiad o'r ffioedd mewn perthynas â nifer o wahanol fathau o drwyddedau sy'n cael eu gweinyddu a'u gorfodi gan yr Adran Drwyddedu. Byddai'r Adroddiad hwn yn eu paratoi ar gyfer y tymor ariannol nesaf.

**3. GWYBODAETH GEFNDIR**

3.1 Ystyriodd yr Aelodau'r adroddiad yn ystod Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu ar 14 o Fawrth 2012. Roedd yr Adroddiad yn sôn am gynllun presennol y ffioedd, gan awgrymu y dylai'r ffioedd hyn aros yn ddigyfnewid ar gyfer tymor 2012/13, ond amlygwyd bod angen adroddiad llawn o'r mater.

3.2 Gweler isod y wybodaeth ynglŷn â'r dadansoddiad ar gyfer yr Aelodau:

*(a) Mynegodd yr Aelodau eu pryder nad oedd adroddiad llawn o'r cynllun ffioedd wedi ei gyflawni na'i gyflwyno i Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio;*

*(b) O ganlyniad i'r diffyg adroddiad, penderfynwyd cadw cynllun presennol y ffioedd am gyfnod o chwe mis ar yr amod bod adolygiad llawn yn cymryd lle mor fuan â phosib o fewn y chwe mis, a*

(c) *Bod darganfyddiadau'r adroddiad yn cael eu cyflwyno ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Trwyddedu ym mis Medi 2012.*

3.3 Ers Chwefror 2012, nid oes Rheolwr wedi bod ar yr Adran Drwyddedu felly nid oes neb wedi cymryd y cyfrifoldeb o gydlynu adroddiad.

3.4 O ganlyniad, mae Swyddogion wedi cymryd ati i adolygu'r ffioedd a'r taliadau presennol. Ond ni lwyddasant i gwblhau'r gwaith yn ôl dyddiadau'r Aelodau oherwydd gofynion eraill.

3.5 Er mwyn llunio adolygiad dealladwy, bydd angen manylu ar bob gweithred drwyddedu er mwyn penderfynu ar amser y Swyddogion sydd ei angen i'w gwblhau ynghyd â'r costau etc.

3.6 Er mwyn cynorthwyo'r Aelodau i ddeall cymhlethdod yr adroddiad hwn, mae tua 20 dull gwahanol o fewn y weithred drwyddedu cerbydau hacni a llogi preifat.

3.7 Mae'r Swyddogion wrthi yn coladu'r wybodaeth uchod (fel y nodwyd yn 3.5) gyda'r bwriad o gyflwyno adroddiad llawn i'r Aelodau yn ystod un o'r cyfarfodydd nesaf.

3.8 Bydd y Swyddogion yn cyflwyno cynnig ar gyfer ystyriaeth o'r Blaen Raglen Waith i'r Aelodau yn ystod cyfarfod mis Rhagfyr. Fe fydd yn cynnwys adolygiad llawn o'r polisïau a dulliau gweithredu. Bydd hefyd adolygiad llawn o'r ffioedd a'r taliadau o fewn y Blaen Raglen Waith hwn. Bydd gofyn i'r Aelodau osod blaenoriaethau ar gyfer yr Adran gyda dyddiadau cyflawni realistig ar gyfer y Swyddogion.

4. **ARGYMHELLIAD**

Bod yr Aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad, a'u bod yn nodi y byddan nhw yn derbyn adroddiad llawn o'r ffioedd a'r taliadau mewn cyfarfod yn y dyfodol.

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 12 Medi 2012 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Swyddog Trwyddedu<br>licensing@denbighshire.gov.uk<br>01824 706451 |
| **TESTUN:** | Adolygiad o Gasgliadau Elusennol |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1 Diweddaru Aelodau ar y cynnydd a wnaed hyd yma ar adolygu Casgliadau Elusennol

1.2 Gofyn am newidiadau i'r polisi presennol wrth aros am gwblhau'r adolygiad llawn.

**2. CRYNODEB GWEITHREDOL**

2.1 Nododd y Blaenraglen Waith a gytunwyd gan Aelodau ar 14 Mawrth 2012 y gofyniad am adolygiad o'r polisïau presennol mewn perthynas â Chasgliadau o Dŷ i Dŷ a Chasgliadau ar y Stryd.

**3. Y GRYM I WNEUD Y PENDERFYNIAD**

3.1 Deddf Casgliadau o Dŷ i Dŷ 1939 a Deddf Heddluoedd, Ffatrïoedd Etc (Darpariaethau Amrywiol) 1916

**4. GWYBODAETH GEFNDIR**

4.1 Mae'r polisïau presennol ar gyfer Casgliadau o Dŷ i Dŷ a Chasgliadau ar y Stryd heb eu hadolygu ers nifer o flynyddoedd. Yn ystod yr amser hwn, mae natur casgliadau elusennol wedi newid ac wedi mynd yn fwy cyffredin ac uchel eu proffil e.e. ymddangosiad elusennau newydd fel *Help for Heroes* a *Sport Relief* etc, ynghyd â newid yn amgyffrediad y cyhoedd o ran elusennau presennol h.y. y Lleng Brydeinig Frenhinol (Apêl y Pabi).

4.2 Mae'r polisi presennol yn gyfyngol mewn nifer o ffyrdd, er enghraifft nid oes gan Swyddogion ddisgresiwn wrth ystyried problemau fel apeliadau

mewn argyfyngau cenedlaethol, ynghyd â phroblemau lleol a allai sbarduno ymateb elusennol gan aelodau'r cyhoedd. Mae elusennau wedi adrodd hefyd ynghylch yr anhawster wrth gael digon o wirfoddolwyr i weithredu fel casglwyr er mwyn galluogi'r elusennau i wneud casgliadau ledled y sir o fewn y ffrâm amser benodedig.

4.3 Y polisi presennol ar gyfer Casglu ar y Stryd yw "caniateir un casgliad ar y stryd bob wythnos mewn perthynas â phob tref/cymuned. Hwyrach fod cymdeithasau ond yn cynnal un casgliad ym mhob tref/cymuned mewn cyfnod o ddeuddeg mis" ac eithrio Apêl y Pabi y Lleng Brydeinig Frenhinol a all gasglu ddau ddiwrnod y flwyddyn.

4.4 Y polisi presennol ar gyfer Casglu o Dŷ i Dŷ yw "rhoddir trwyddedau i sefydliadau heb Orchmynion Eithrio'r Swyddfa Gartref ar yr amod nad yw'r fath gasgliadau'n gorgyffwrdd â chasgliadau eraill a bod y cymdeithasau'n cael eu cyfyngu i un casgliad mewn cyfnod o ddeuddeg mis."

4.5 Mae'r swyddogion wedi cynnal adolygiad o'r polisïau presennol ac wedi drafftio polisïau i adlewyrchu nodau diwygiedig arfaethedig y Cyngor, sef:

1. diogelu buddiannau rhoddwyr a buddiolwyr cyhoeddus
2. hwyluso casgliadau wedi'u trefnu'n dda gan sefydliadau elusennol dilys ac i sicrhau bod safonau da'n cael eu bodloni
3. atal casgliadau heb eu trwyddedu rhag cael eu cynnal
4. sicrhau y caiff arian ei gasglu'n ddiogel a'r derbyniadau eu cyfrifo'n gywir amdanynt
5. lleihau niwsans i drigolion ac ymwelwyr
6. cyflawni cydbwysedd teg rhwng achosion lleol a chenedlaethol

4.6 Mae gwaith ar y polisïau'n mynd rhagddynt a cham nesaf yr adolygiad fydd ymgynghori â Swyddogion Cyfreithiol a phartïon cyfrannog eraill e.e. Y Comisiwn Elusennau, Elusennau Cenedlaethol ac unrhyw Elusen sydd wedi cynnal Casgliad ar y Stryd neu Gasgliad o Dŷ i Dŷ yn y Sir yn y 12 mis diwethaf.

4.7 Bydd swyddogion yn dod â Blaenraglen Waith arfaethedig er mwyn i aelodau ei hystyried yng nghyfarfod mis Rhagfyr. Bydd hon yn cynnwys adolygiad cyfan o bolisïau a gweithdrefnau. Bydd yr adolygiad o Gasgliadau Elusennol yn y Blaenraglen Waith arfaethedig. Bydd i fyny i Aelodau osod y blaenoriaethau ar gyfer y Rhan o fewn fframiau amser realistig i Swyddogion lynu wrthynt.

4.8 Yn y cyfamser, bydd Swyddogion yn ceisio cymeradwyaeth gan Aelodau i alluogi'r Lleng Brydeinig (Apêl y Pabi) i ymestyn eu dyraniad presennol

ar gyfer Casgliadau ar y Stryd (deuddydd) i saith diwrnod i roi digon o amser a hyblygrwydd iddyn  nhw gasglu ledled y sir. Mae hyn yn arfer cyffredin ar hyd a lled y DU.

5. **ARGYMHELLIAD**

5.1 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad ac yn awdurdodi Swyddogion i ymgynghori fel y manylir yn 4.6 uchod.

5.2 Cymeradwyo'r cais gan y Lleng Brydeinig Frenhinol am Gasgliad ar y Stryd i gasglu ledled y sir am hyd at saith diwrnod ar gyfer Apêl y Pabi.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**ADRODDIAD I:** **PWYLLGOR TRWYDDEDU**

**DYDDIAD:** **12 Medi 2012**

**ADRODDIAD GAN:** **PENNAETH GWASANAETHAU CYNLLUNIO, ADFYWIO A RHEOLEIDDIO**

**PWNC:** **RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU 2012/13**

| DYDDIAD | ADRODDIAD | SYLW |
|---|---|---|
| 12 Medi 2012 | Adolygiad o'r polisïau casglu presennol, gan gynnwys o dŷ i dŷ a'r stryd. | Adroddiad ar gyfer ystyriaeth yr Aelodau |
| | Adolygiad o ffioedd a thaliadau Trwyddedu | Adroddiad ar gyfer ystyriaeth a chymeradwyaeth yr Aelodau |
| 5 Rhagfyr 2012 | Adolygiad o safonau gyrwyr Cerbydau Hacni a llogi preifat | Adroddiad ar gyfer ystyriaeth yr Aelodau i wella safonau gyrwyr sydd â thrwydded. |
| 6 Mawrth 2013 | Cytuno ar flaenoriaethau'r Blaen raglen waith ar gyfer 2013/14 | Adroddiad ar gyfer ystyriaeth yr Aelodau |
| | Adolygiad o ffioedd a thaliadau Trwyddedu | Adroddiad ar gyfer ystyriaeth a chymeradwyaeth yr Aelodau |
| | Adnewyddiad Sefydliad Rhyw | Adroddiad ar gyfer yr Aelodau i ystyried adnewyddiad y Sefydliad Rhyw sy'n bodoli eisoes. |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 12 Medi 2012 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Swyddog Trwyddedu<br>licensing@denbighshire.gov.uk<br>01824 706451 |
| **TESTUN:** | Canlyniadau'n Ymwneud ag Addasrwydd y Cerbydau Hacni Trwyddedig Presennol a Gyrwyr Cerbydau Hurio Preifat |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.2 Rhoi gwybod i Aelodau am ganlyniad y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau mewn Cyfarfod blaenorol yn ymwneud ag addasrwydd cerbydau hacni trwyddedig presennol a gyrwyr cerbydau hurio preifat i barhau fel gyrwyr trwyddedig.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Yn y Pwyllgor Trwyddedu ar 23 Mehefin 2010, penderfynodd yr Aelodau weithredu prawf gwybodaeth i yrwyr fel rhan o'r broses ymgeisio i yrwyr newydd a gyrwyr sy'n adnewyddu.

2.2 Er gwybodaeth yr Aelodau, mae manylion penderfyniad y pwyllgor fel a ganlyn:

***PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais i gyflwyno Prawf Gwybodaeth i fod yn rhan o'r broses ymgeisio bresennol ar gyfer Gyrwyr Cerbydau Hacni a Phreifat arfaethedig a Gyrwyr Trwyddedig presennol fel a osodwyd ym mharagraffau 3.4 i 3.10 yr adroddiad.*

2.3 Yn eu cyfarfod ar 27 Mehefin 2012, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu ystyried sefyllfa sawl gyrrwr trwyddedig a oedd wedi methu ymateb i geisiadau'r swyddog i ymgymryd â'r Prawf Gwybodaeth fel yr amlinellwyd yn 2.2 uchod.

## 3. Y GRYM I WNEUD Y PENDERFYNIAD

3.1 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

**4. GWYBODAETH GEFNDIR**

4.1 Gofynnwyd i aelodau ystyried achos 6 gyrrwr trwyddedig unigol, a fethodd, am amryw resymau, i ufuddhau i'r gofyniad i ymgymryd â phrawf gwybodaeth ymhen y raddfa amser ofynnol.

4.2 Gwahoddwyd deiliaid trwydded i fynychu'r Cyfarfod i'w galluogi i gael cyfle i esbonio'r amgylchiadau'n ymwneud â'u methiant i ufuddhau i'r gofyniad i wneud prawf gwybodaeth o fewn y raddfa amser ofynnol.

**5. YSTYRIAETH**

5.1 Ystyriodd yr aelodau bob achos yn seiliedig ar amgylchiadau unigol pob gyrrwr ac fe'u penderfynwyd fel a ganlyn:

| **Rhif yr Ymgeisydd** | **Penderfyniad** |
|---|---|
| 038993 | Gohiriwyd er mwyn galluogi'r Ymgeisydd i sefyll y Prawf Gwybodaeth ymhen y 7 diwrnod nesaf |
| 040517 | Gwaharddwyd yr ymgeisydd am 3 mis ac yn ystod yr amser hwnnw, byddai'n cael cyfle i sefyll a llwyddo yn y Prawf Gwybodaeth |
| 039711 | Gohiriwyd i roi amser i'r Ymgeisydd sefyll a llwyddo yn y Prawf Gwybodaeth |
| 039820 | Gohiriwyd i roi amser i'r Ymgeisydd sefyll a llwyddo yn y Prawf Gwybodaeth |
| 039981 | Gwaharddwyd yr ymgeisydd am 3 mis ac yn ystod yr amser hwnnw, byddai'n cael cyfle i sefyll a llwyddo yn y Prawf Gwybodaeth |
| 039853 | Gohiriwyd i roi amser i'r Ymgeisydd sefyll a llwyddo yn y Prawf Gwybodaeth |

5.2 Mae'r swyddogion yn falch i adrodd, o ganlyniad i'r penderfyniadau a wnaed gan yr Aelodau, bod yr holl yrwyr y manylir arnynt uchod, wedi sefyll y Prawf Gwybodaeth yn llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys y 2 Ymgeisydd y cafodd eu Trwyddedau eu hatal. Mae eu trwyddedau wedi'u hadfer yn unol â hynny.

**6. ARGYMHELLIAD**

6.1 Bod yr Aelodau'n nodi'r adroddiad.

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag